

## **Canllawiau Cred – Pennod 7**

## Y WIR WINWYDDEN

Anodd yw dweud i sicrwydd ym mhle y traddododd Iesu Grist y geiriau a gofnodir ym mhenodau pymtheg ac un ar bymtheg, ac y gweddïodd y weddi a gofnodir yn yr ail bennod ar bymtheg o Efengyl Ioan. Gan iddo ar ddiwedd y bedwaredd bennod ar ddeg ddweud wrth ei ddisgyblion am godi, gyda golwg ar adael yr oruwchystafell, 'Codwch, awn oddi yma', un posibilrwydd yw ei fod wedi llefaru'r geiriau hyn, ac yna weddio'r weddi, pan oeddent ar eu ffordd i ardd Gethsemane. Ar y llaw arall, ceir awgrym cryf yng ngeiriau cyntaf y ddeunawfed bennod y gallasent fod wedi oedi yn y ty cyn cychwyn ar eu taith, ac mai yno y llefarodd y geiriau hyn ac yr aeth i weddi drostynt:

*'Wedi i'r Iesu ddywedyd y geiriau hyn, efe a aeth allan, efe a'i ddisgyblion, dros afon Cedron, lle yr oedd gardd, i'r hon yr aeth efe a'i ddisgyblion'* (Ioan 18:1).

Nid hwn fyddai'r tro cyntaf, na'r olaf, i gwmni o bobl, a phethau dwys yn pwysu ar eu calonnau, oedi cyn cychwyn ar eu taith.

Yr hyn sy'n amlwg yw na ddylid byth ddioli'r penodau hyn (Ioan 15-17) oddi wrth y bedwaredd bennod ar ddeg. Prun ai wrth gerdded i gyfeiriad yr ardd neu tra oeddent yn y ty yn paratoi i gychwyn, dal ati a wnaeth Iesu Grist i roi rhagor o oleuni ar y pwnc a gododd rhyngddo a'i ddisgyblion: beth fyddai eu perthynas hwy ag ef, ac â'u Tad nefol, wedi iddo'u gadael. Anodd, yn wir, fyddai dod o hyd i grynhoad gwell o'r hyn a ddywedodd yn ail hanner y bedwaredd bennod ar ddeg ar y pwnc hwnnw nag a geir yn nameg y wir winwydden. Dyna pa mor agos yw'r cysylltiad rhwng y bennod honno a'r penodau sy'n dilyn. Gadewch inni ystyried enghraifft neu ddwy.

Yr hyn a addawodd Iesu Grist yn y bedwaredd bennod ar ddeg oedd y byddai'r rhai a gredai ynddo ef yn cael gwneud yr hyn y byddai ef yn ei wneud: 'Yr hwn sydd yn credu ynof fi, y gweithredoedd yr wyf fi yn eu gwneuthur, yntau hefyd a'u gwna' (Ioan 14:12). Yn ôl y ddamewg, dwyn ffrwyth y winwydden yw swyddogaeth y canghennau! Eglurodd Iesu Grist y byddai hynny'n bosibl oherwydd y berthynas agos a fyddai'n bodoli rhyngddo ef a'i ddisgyblion: 'Y dydd hwnnw y gwybyddwch fy mod i yn fy Nhad, a chwithau ynof fi, a minnau ynoch chwithau' (Ioan 14:20). Dyna'r union berthynas a bortreadir yn y ddamewg: 'Arhoswch ynof fi, a mi ynoch chwi' (Ioan 15:4).

Mae'n deg ychwanegu nad crynhoi *yn unig* a wnaeth Iesu Grist yn ystod y munudau cysegredig hynny pan oeddent ar gychwyn i gyfeiriad yr ardd, neu ar eu ffordd yno eisoes. Yr hyn sy'n rhyfeddol yw iddo *ychwanegu* cymaint at yr hyn a ddywedodd yn flaenorol. Yna ei fod wedi troi'r cyfan yn weddi ar eu rhan (Ioan 17): gweddi oedd yn codi'n uniongyrchol o'r hyn a rannodd â hwy wedi'r munudau pryd y gosododd ger eu bron y posibilrwydd y caent hwy wneud yr hyn y byddai ef yn ei wneud (Ioan 14:12).

Ystyriaethau yw'r rhain sy'n tanlinellu'r ffaith na ddylid byth geisio dehongli unrhyw ran o ddysgeidiaeth Iesu Grist yn y penodau hyn ar wahân i'r gweddill, ond yn hytrach bob amser yng ngoleuni ei gilydd. Gyda chalon drom y dywedwn na chamddehonglwyd yr un rhan o'r Ysgrythur yn fwy na'r penodau hyn, a hynny'n bennaf oherwydd methu parchu'r egwyddor hon i'r graddau y dylid. Cyfeiriwn at ddameg y wir winwydden ond hefyd, yn fwy difrifol fyth, at y weddi.

## **Y ddameg**

Dameg fer yw dameg y wir winwydden, dim ond dwy adnod. Yn dilyn ceir y cymhwysiad sy'n ymestyn hyd at yr ail adnod ar bymtheg o'r bymthegfed bennod. Er byrred yw hi, gallwn fod yn sicr iawn y byddai'r disgyblion yn ymwybodol fod Iesu Grist yn honni rhywbeth mawr iawn amdano'i hun pan ddywedodd yng ngosodiad cyntaf y ddameg, 'Myfi yw'r wir winwydden.'

Gwirionedd cydnabyddedig ymhlith yr Iddewon oedd fod y genedl (neu'r 'eglwys yn yr anialwch' fel y cyfeiriodd yr apostol Paul ati) yn cael ei chyffelybu yn eu Hysgrythurau i winwydden. (Mae Salm 80:8-16; Jer. 2:21; Esec. 19:10; Hos. 10:1 yn enghreifftiau da o hynny.) Yr unig gasgliad y gallai'r disgyblion ddod iddo felly oedd fod Iesu Grist yn honni mai efe oedd y wir winwydden, hynny yw, y wir eglwys.

Ni phetrusodd uniaethu ei Dad â'r hyn a honnodd amdano'i hun: 'a'm Tad,' meddai, 'yw'r gwinllannwr!' Gydag awdurdod a fyddai'n gabledd ar wefusau unrhyw un arall, ychwanegodd y byddai dau fath o ganghennau yn perthyn i'r winwydden: y rhai a fyddai'n dwyn ffrwyth, a lanheid gan y Tad, a'r rhai na wnâi hynny, y byddai'r Tad yn eu tynnu ymaith.

*'Pob cangen ynof fi heb ddwyn ffrwyth, y mae efe yn ei thynnu ymaith; a*

*phob un a ddygo ffrwyth, y mae efe yn ei glanhau, fel y dygo fwy o ffrwyth'* (Ioan 15:2).

Pe baem yn un o'r disgyblion yn clywed y geiriau hyn yn cael eu llefaru, y peth cyntaf a âi trwy ein meddyliau fyddai, 'Gan mai dau fath o ganghennau sydd, ac os yw'r Tad yn tynnu ymaith y canghennau diffrwyth, pa fath o gangen ydw i, tybed?' Yn union fel pe bai wedi darllen eu meddyliau, meddai Iesu Grist, '*Eisoes yr ydych chi yn lân trwy'r gair a leferais i wrthyh'* (ad.3). Ffordd hynod effeithiol oedd hyn o'u sicrhau eu bod yn ganghennau oedd yn dwyn ffrwyth! Dim ond canghennau felly fyddai'n cael eu glanhau: '*Pob un a ddygo ffrwyth, y mae efe yn ei glanhau, fel y dygo fwy o ffrwyth.'*

Y mae yn y fan hyn wers bwysig i bob un sy'n honni ei fod yn Gristion. Os yw'r Tad yn glanhau *pob* cangen sy'n perthyn mewn gwirionedd i'r winwydden, a yw hynny'n wir amdano ef? A yw'n ymwybodol fod ei Dad nefol wrth ei waith o ddydd i ddydd yn ei 'lanhau' oddi wrth bethau a fyddai'n ei rwystro rhag dwyn ffrwyth Iesu Grist? Os ydyw, mae ganddo achos i lawenhau yn fawr ac i fod yn ddiolchgar iawn amdano. Mae'n un o nodau y gwir Gristion.

Ni allwn lai na sylwi bod Iesu Grist yn y geiriau hyn yn dweud ei fod ef wedi bod yn gwneud peth o'r gwaith y dywedodd yn y ddameg y byddai'r Tad yn ei wneud, sef 'glanhau'r' canghennau ffrwythlon: 'Yr ydych chi yn lân *trwy'r gair a leferais i wrthyh.*' Pan ddeuwn at y weddi, cawn weld y bydd Iesu Grist yn y fan honno hefyd yn gofyn i'w Dad sancteiddio'i ddisgyblion (ynghyd â'r sawl a ddeuai i greu ynddo 'trwy eu hymadrodd hwy') a'r un pryd yn dweud ei fod yntau yn ei sancteiddio'i hun i'r un diben: 'Ac er eu mwyn hwy yr wyf yn fy sancteiddio fy hun, fel y byddont hwythau wedi eu sancteiddio yn y gwirionedd' (Ioan 17:19). Er bod yna rannu swyddogaethau o fewn yr 'economi dwyfol', ceir hefyd gyd-dynnu rhyfeddol a rhannu cyfrifoldeb.

Pan ddefnyddiodd Iesu Grist yr ymadrodd 'trwy'r gair a leferais i wrthyh', cyfeirio yr oedd, medd nifer o esbonwyr, at ei weinidogaeth yn ei chyfanrwydd. Ond llawer mwy tebygol yw ei fod yn cyfeirio at y wers fawr a ddysgodd i'w ddisgyblion pan olchodd eu traed yn gynharach y noswaith honno:

*'Pedr a ddywedodd wrtho, "Ni chei di olchi fy nhraed i byth." Yr Iesu a atebodd iddo, "Oni olchaf di, nid oes i ti gyfran gyda myfi." Simon Pedr a ddywedodd*

*wrtho, "Arglwydd, nid fy nhraed yn unig, eithr fy nwylo a'm pen hefyd." Yr Iesu a ddywedodd wrtho, "Yr hwn a ymolchodd drosto, nid rhaid iddo ond golchi ei draed, eithr y mae yn lân oll. Ac yr ydych chi yn lân, eithr nid pawb oll." Canys efe a wyddai pwy a'i bradychai ef; am hynny y dywedodd, "Nid ydych chi yn lân bawb oll."'* (Ioan 13:8 -11).

Gan nad oedd Jwdas bellach yn y cwmni, gallai Iesu Grist ddweud amdanynt un ac oll, 'Yr ydych chi yn lân.' Pan oedd Jwdas yn y cwmni, yr hyn a ddywedodd oedd, 'Nid ydych chi yn lân bawb oll.' Ac yn yr un adnod dywedir, 'Canys efe a wyddai pwy a'i bradychai ef' (Ioan 13:11). Ond gallai ddweud am y disgyblion eu bod yn lân oherwydd eu bod hwy – yn wahanol, mae'n amlwg, i Jwdas –wedi profi'r glanhad llawn a fyddai ynghlwm wrth y weithred o roi eu bywydau iddo i'w ddilyn. Hynny, yn ogystal â chael eu glanhau y noswaith honno oddi wrth y diffyg gostyngeiddrwydd a'r balchder a'u cadwodd rhag cyflawni'r weithred na phetrusodd Iesu Grist ei chyflawni ac yntau'n 'Arglwydd ac yn Athro', sef golchi traed ei gilydd.

### **Cysuro a chadarnhau**

Yn sicr, cysuro a chadarnhau ei ddisgyblion oedd bwriad Iesu Grist yn y ddameg ac yn y cymhwysiad a ddilynodd. Wedi eu sicrhau fod yr hyn a ddigwyddai i ganghennau ffrwythlon, sef cael eu glanhau, wedi bod yn digwydd yn eu hanes hwy eisoes, 'Yr ydych chi yn lân trwy'r gair a leferais i wrthych', aeth yn ei flaen i'w cysuro ymhellach.

Gwnaeth hynny y tro hwn trwy eu gorchymyn i 'aros' ynddo, a thrwy eu hatgoffa yr un pryd y byddai yntau ynddynt hwythau: '*Arhoswch ynof fi, a mi ynoch chi*' (Ioan 15:4a). Ffordd Iesu Grist oedd hyn o hysbysu ei ddisgyblion y byddai'r berthynas rhyngddo ef a hwy yn berthynas barhaol. Dim ond newydd hysbysu ei ddisgyblion yr oedd y byddai'n gweddïo drostynt ac mai canlyniad hynny fyddai y byddai'r Tad yn rhoi'r Ysbryd Glân iddynt 'fel yr arhoso gyda chi yn dragwyddol' (Ioan 14:16b). Canlyniad hynny fyddai y byddent yn gwybod, am y tro cyntaf erioed, ei fod ef yn ei Dad a'u bod hwythau ynddo ef ac yntau ynddynt hwy. 'Y dydd hwnnw y gwybyddwch fy mod i yn fy Nhadau, a chwithau ynof fi, a minnau ynoch chwithau' (Ioan 14:20).

Yn awr mae'n eu hysbysu eu bod i 'aros' yn y berthynas newydd hon a'i hystyried fel ystad barhaol: '*Arhoswch ynof fi, a mi ynoch chi*' (adnod 4). Clywsant ef yn dweud am

yr Ysbryd Glân mai dod i aros a fyddai ac i aros yn dragwyddol (adnod 16). Yn awr mae'n eu hysbysu eu bod hwythau i aros lle y gosodwyd hwy, trwy fewnbreswylid yr Ysbryd Glan, sef ynddo ef, fel y byddai yntau, trwy yr un Ysbryd, yn aros ynddynt hwy. Nid trefniant dros dro oedd hwn. Fe fyddai'r un berthynas yn bodoli rhyngddynt hwy a'r Arglwydd Iesu Grist â'r berthynas a oedd yn nodweddu'r Mab yn ei berthynas â'i Dad. Ystyr y ferf 'menein' (arhoswch) yn y Groeg yw 'parhewch i fod lle'r ydych'. 'Arhoswch ynof fi', meddai, 'Nid oes gen i yr un bwriad i'ch gwrthod na'ch taflu allan. Setlwch i lawr: gwnewch eich hun yn gartrefol.'

Rwy'n cofio aelod annwyl iawn yn un o'r eglwysi y bûm yn weinidog arni yn adrodd ei hanes yn cael ei chymryd yn blentyn bach amddifad i gartref yn yr ardal lle'r oedd i aros. Er mawr siom i wr a gwraig y ty, ni allent yn eu byw ei chael i beidio crio. Roedd eu caredigrwydd tuag ati yn ddi-ben-draw. Ond doedd dim yn tycio. Yn y diwedd, wedi hir ymdrech, llwyddasant i gael ganddi gyfaddef beth oedd yn peri'r fath ofid iddi. 'Mae gen i ofn,' meddai 'y bydda' i'n cael fy symud oddi wrthy chithau eto.' (Bu'n aros dros dro mewn amryw o gartrefi cyn hynny.) 'Fydd dim rhaid i chi fynd oddi yma byth', meddai'r wraig wrthi. Y funud honno, peidiodd y dagrau. Bu yno weddill ei hoes, yn ymgeledd nid bychan i'r ddau annwyl a'i cymerodd dan eu hadain.

Yr un peth yn union a ddywedodd Iesu Grist wrth ei ddisgyblion: 'Arhoswch ynof fi, a minnau ynoch chiwi.' A'r un peth a ddywed wrth bob un sy'n dod i gredu ynddo.

## **Y rheswm pam**

Mae'r *rheswm* a roes Iesu Grist i'w ddisgyblion dros eu gorchymyn i aros ynddo yn ddadlennol dros ben: '*Megis na all y gangen ddwyn ffrwyth ohoni ei hun onid erys yn y winwydden, felly ni ellwch chwithau onid arhoswch ynof fi*' (ad. 4b). Pwy feddyliai am gangen yn dwyn ffrwyth pe na byddai cysylltiad bywydol rhyngddi hi a'r pren y perthynai iddo? Yr un modd, ni all y sawl sy'n honni ei fod yn ddisgybl i Iesu Grist 'ddwyn ei ffrwyth' oni fydd y berthynas fywydol rhyngddo ac Iesu Grist, a ddisgrifiodd iddynt ynghynt y noson honno, yn wir amdano yntau: 'Y dydd hwnnw y gwybyddwch fy mod i yn fy nhad a chwithau ynof fi a minnau ynoch chwithau.' Mae'n ei osod yn gadarnhaol yn y ddwy frawddeg nesaf: '*Myfi yw'r winwydden, chwithau yw'r canghennau. Yr hwn sydd yn aros ynof fi, a minnau ynddo yntau, hwnnw sydd yn dwyn ffrwyth lawer.*' Y tro hwn cyfeiria at yr agwedd ar y berthynas sydd yn ei gwneud

yn berthynas fyw: 'a minnau ynddo yntau'. Mae'r esboniad yn dilyn: '*oblegid hebof fi ni ellwch chwi wneuthur dim*' (ad. 5).

*Ychwanegu* at eu gwybodaeth wnaeth Iesu Grist unwaith eto yn y fan hyn. Un peth oedd iddo ddweud yn flaenorol y caent hwy wneud yr hyn y byddai ef yn ei wneud: 'Y gweithredoedd yr wyf fi yn eu gwneuthur, yntau hefyd a'i gwna.' Peth arall oedd iddo ychwanegu na allent wneud dim o'r pethau hynny hebdo. Ni allent ddwyn dim o'r ffrwyth a ofynnai Duw ganddynt ond trwy fanteisio'n llawn ar y ddarpariaeth a baratowyd ar eu cyfer, sef y berthynas ddeublyg â'r Arglwydd Iesu Grist a ddeuai i fodolaeth trwy fewnbreswylad yr Ysbryd Glân yn eu calonau. Dyna paham yr ychwanegodd 'hebof fi ni ellwch chwi wneuthur dim'.

*'Myfi yw'r winwydden, chwithau yw'r canghennau. Yr hwn sydd yn aros ynof fi, a minnau ynddo yntau, hwnnw sydd yn dwyn ffrwyth lawer; oblegid hebof fi ni ellwch chwi wneuthur dim'* (adnod 5).

Bu llawer o drafod ar y cwestiwn 'Beth yn hollol yw'r ffrwyth y cyfeiria Iesu Grist ato?' Dywed rhai mai ffrwyth eu cenhadaeth yn y byd, sef dychweledigion, a olygai Iesu Grist. Pwysleisia eraill mai'r rhinweddau a gynhwysir gan Paul yn ei ddisgrifiad o ffrwyth yr Ysbryd (Galatiaid 5:22) yw'r ffrwyth. O gofio'r cyd-destun, onid yr ateb yw y gweithredoedd hynny y bydd Iesu Grist yn eu cyflawni ynom a thrwom, gweithredoedd a fydd o ran eu cynnwys a'u cymhellion yn unol ag ewyllys Duw?

Dyna'r bywyd y bu i Iesu Grist ei fyw ar y ddaear. Does dim ond rhaid cofio'r geiriau a lefarodd wedi iddo iacháu'r claf wrth lyn Bethesda: '*Yna yr Iesu a atebodd ac a ddywedodd wrthynt, "Yn wir, yn wir, meddaf i chwi, ni ddichon y Mab wneuthur dim ohono ei hunan oddieithr yr hyn a welo efe y Tad yn ei wneuthur"*' (Ioan 5 :19). Dyna'r bywyd y mae am ein cynorthwyo ninnau i'w fyw.

Yn unol â'r Cyfamod y cytunwyd arno yn nhragwyddoldeb, pan ddaeth yma i'n daear bu i Iesu Grist fyw bywyd cyfiawn tros y rhai y rhoes ei Dad yn bobl iddo. Yn ei farwolaeth dioddefodd y gosb a deilyngent am eu hanghyfiawnder. Gwnaeth hyn oll o'i wirfodd fel y gellid priodoli'r cyfiawnder hwnnw iddynt yn rhad, a'r un pryd glirio'u dyled oddi ar lyfrau'r nef. Wedi cyflawni'r ddwy gymwynas aruthrol fawr hynny, yng nghyflawnder yr amser deuai ef ei hun i galonnau'r cyfryw i'w galluogi i fyw yn

unol ag ewyllys eu Tad.

Sylwer nad dweud a wnaeth Iesu Grist y *dylai'r* sawl a fyddai'n aros ynddo ef (ac yntau 'ynddynt' hwythau) ddwyn ffrwyth lawer (er bod hynny'n wir) ond y byddent yn dwyn ffrwyth lawer: 'Yr hwn sydd yn aros ynof fi, a minnau ynddo yntau, hwnnw sydd yn dwyn ffrwyth lawer; oblegid hebof fi ni ellwch chwi wneuthur dim' (Ioan 15:5). Tra oeddent 'heb' Iesu Grist, ni allent fodloni Duw. Mae'r apostol yn dweud hynny'n glir yn ei epistol at y Rhufeiniaid: 'A'r rhai sydd yn y cnawd, ni allant ryngu bodd Duw' (Rhufeiniaid 8:8). Yn awr, a hwythau bellach yn aros 'yng Nghrist', a Christ yn aros 'ynddynt hwythau', y maent yn dwyn ffrwyth lawer. Mwy nag a sylweddolant, yn aml.

Onid hyn fu profiad pob un a ddaeth i gredu yn Iesu Grist? Yn y misoedd a'r blynyddoedd cyntaf, o'u cymharu eu hunain â'r hyn oeddent cyn hynny, cawsant achos lawer gwaith i ryfeddu at y gwahaniaeth mawr a ddaeth i'w rhan. Oddi ar hynny, er na fyddant lawn mor ymwybodol o'r newid ag yr oeddent ar y dechrau, mae'r ffaith eu bod yng Nghrist a bod Iesu Grist ynddynt hwy yn gadael ei ôl yn drwm ar eu bywydau. Byddai'n amhosibl iddo beidio.

Nid siarad am rai Cristnogion elitaidd a oedd yn llwyddo i 'aros' ynddo yr oedd Iesu Grist. 'Yr hwn sydd yn aros ynof fi', meddai. Hynny yw, pob Cristion. 'A minnau ynddo yntau.' Hynny yw, unwaith eto, pob Cristion. 'Sydd yn dwyn ffrwyth lawer, oblegid hebof fi' (hynny yw, pe na byddai ef ynof i, na minnau ynddo yntau) 'ni ellwch chwi wneuthur dim.'

### **Colli'r cysur**

Ysywaeth, yr hyn a ddigwydd i lawer o Gristnogion pan ddarllenant y geiriau hyn yw cael eu llygad-dynnu gan rai ymadroddion sy'n ymddangos fel pe bai Iesu Grist yn taflu cysgod o amheuaeth dros y posibilrwydd y byddent yn 'aros' ynddo; ymadroddion fel 'Onid arhoswch ynof fi' (ad. 4), 'Yr hwn sydd yn aros ynof fi' (ad. 5), 'Os arhoswch ynof fi' (ad. 7). Pan ddarllenant (mewn rhai cyfieithiadau) am ganghennau'n cael eu tynnu o'r winwydden gan y Tad am nad oeddent yn 'aros ynddo ef' (ad. 6), deuant i'r casgliad fod y rhagolygon iddynt lwyddo i aros yng Nghrist yn seiliedig ar rywbeth bregus ac ansicr dros ben.

Yn ôl fel y deallant hwy yr ymadrodd 'aros yng Nghrist', sef aros yn wastadol

yn ymwybodol o'i bresenoldeb, ymhen ychydig oriau, meddant, fe fydd yr ymdeimlad hwnnw'n pylu a'r gymdeithas fu rhyngddynt a'r Arglwydd Iesu Grist yn mynd yn beth afreal a thlawd. Fe fyddant wedi peidio 'aros' ynddo. Try'r geiriau y bwriadodd Iesu Grist iddynt fod yn gysur ac yn galonddid yn achos gofid a thorcalon.

Ni phetruswn ddweud mai camgymeriad mawr yw i Gristion gredu ei fod yn symud i mewn ac allan o Iesu Grist yn ôl fel y bydd yn ymwybodol o'i bresenoldeb. Eu hannog yr oedd Iesu Grist i aros yn y berthynas ddeublyg o fod 'ynddo ef *ac iddo yntau fod ynddynt hwythau*'. Nid 'Arhoswch ynof fi' yn unig a ddywedodd ond 'Arhoswch ynof fi a mi ynoch chi' (ad. 4a). Perthynas ddeublyg yw hi yn ei hanfod: bod 'yng Nghrist' a bod Crist 'ynddynt hwythau'.

Rhywbeth i resynu'n fawr ato yw fod cynifer o Gristnogion da yn talfyrru ei eiriau fel petai'n cyfeirio'n unig at 'aros' ynddo ef. Bod 'ynddo ef', ac iddo yntau fod 'ynddynt hwy' oedd y berthynas oedd yn addawedig i'w wasanaethwyr: 'Y dydd hwnnw y gwybyddwch fy mod i yn y Tad a chwithau ynof fi a minnau ynoch chwithau.' Ac eto, ar draws y blynyddoedd, prin y clywsom am un enaid a fyddai'n gofidio am na allent aros yn y berthynas honno. Gofidient ddigon am na allent 'aros' yn Iesu Grist, ond dim gair o sôn am yr undeb ysbrydol sy'n bodoli rhwng Iesu Grist a'i ddisgyblion gwir. Ni fyddai'n angharedig ar ein rhan i ofyn i'r sawl sy'n tristáu am na allant 'aros yn Iesu Grist' a ydynt yn golygu eu bod wedi peidio bod 'yng Nghrist' ac a ydynt yn credu ei fod yntau, a oedd 'ynddynt' cyn hyn, wedi eu llwyr adael? Amhosibl yw bod 'yng Nghrist' heb i Iesu Grist 'fod ynom ni': 'Y dydd hwnnw y gwybyddwch fy mod i yn fy Nhad a chwithau ynof fi a minnau ynoch chwithau' (14 :20). Mae dwy ochr y berthynas yn hanfodol i'r undeb ysbrydol sydd rhyngddynt a'i gilydd – bod 'yng Nghrist a'i fod yntau 'ynom ni'.

Y Tad, yr hwn a'u rhoes i'w Fab yn nhragwyddoldeb ac a'u hunodd ag ef fel eu cynrychiolydd bryd hynny, yw'r hwn a'u hunodd ag ef yn brofiadol hefyd trwy fewnbreswylad yr Ysbryd Glân. 'Eithr yr ydych chi *ohono ef* yng Nghrist Iesu', meddai'r apostol wrth ysgrifennu at yr eglwys yng Nghorinth (1 Corinthiaid 1:30). 'Canys buoch farw, a'ch bywyd a guddiwyd gyda Christ yn Nuw', meddai drachefn wrth ysgrifennu at yr eglwys yn Colosa (Colosiaid 3:3).

Unwaith y caiff credinwyr eu gosod 'yng Nghrist Iesu' gan eu Tad nefol, 'yng Nghrist Iesu' fydd eu cyfeiriad byth mwy. Ac 'ynoch chi' fydd ei gyfeiriad yntau. Gall

eu hymdeimlad o bresenoldeb Iesu Grist amrywio'n fawr, ond perthynas arhosol yw bod 'yng Nghrist' a bod 'Iesu Grist ynom ninnau'. (Nid oes un gwirionedd ynghylch ein hiachawdwriaeth a wna ein calonogi a'n cymell i geisio gweld ei wedd yn hyderus yn fwy na chredu hyn.) Camgymeriad hefyd yw i Gristion gredu bod Iesu Grist, pan ddywed 'hebof fi ni ellwch chwi wneuthur dim', yn awgrymu ei fod ef yn symud i mewn ac allan o'r credadun, yn ôl fel y bydd y credadun yn cydnabod ei bresenoldeb. 'Os oes neb heb Ysbryd Crist ganddo, nid yw hwnnw yn eiddo ef', meddai'r apostol wrth ysgrifennu at y Rhufeiniaid (Rhufeiniad 8:9). 'Crist ynoch chwi, gobaith y gogoniant', meddai drachefn amdano, wrth ysgrifennu at y Colosiaid (Colosiaid 1:27). Disgrifio sefyllfa barhaol y mae Iesu Grist.

Felly y mae deall arwyddocâd geiriau hollbwysig Iesu Grist ynghylch yr Ysbryd Glân a roddai'r Tad i'w ddisgyblion. 'A mi a weddiaf ar y Tad, ac efe a rydd i chwi Ddiddanydd arall, *fel yr arhoso gyda chwi yn dragwyddol*' (Ioan 14:16). Nid rhodd dros dro a fyddai ond rhodd a fyddai'n preswyllo ynddynt yn dragwyddol.

Mae'n wir fod nifer o'r esbonwyr sy'n methu gweld fawr ddim arwyddocâd i'r hyn a ddigwyddodd i'r disgyblion yn yr oruwchystafell ar noswaith gyntaf atgyfodiad Iesu Grist yn dadlau mai at ddyfodiad yr Ysbryd Glân ar ddydd y Pentecost y cyfeiriai yn y fan hyn. Dweud yr oedd, meddent, y byddai'r Ysbryd Glân gyda'i bobl mewn ystyr gyffredinol byth oddi ar hynny. Yn yr ystyr hwnnw byddai gyda'i bobl 'yn dragwyddol'. Un o ganlyniadau trist y gred hon yw ei bod yn peri bod y sawl sy'n ei choledd yn methu gweld llawer o angen gweddïo am yr Ysbryd Glân i gael ei roi ymhellach. Nid nad ydynt yn credu fod modd i'r Ysbryd Glân gael ei roi ymhellach, ond eu bod mor awyddus i bwysleisio fod yr Ysbryd Glân, yn yr ystyr gyffredinol yma, wedi ei roi yn barod i aros gyda'i bobl.

Mae'r adnodau sy'n dilyn adnod 16 yn gwneud yn glir mai am fewnbreswylad yr Ysbryd Glân yn y crediniwr yr oedd Iesu Grist yn sôn. Ni allai dim fod yn gliriach: 'y mae yn aros gyda chwi ac *ynoch y bydd efe . . . mi a ddeuaf atoch chwi . . . Y dydd hwnnw y gwybyddwch fy mod i yn fy Nhad, a chwithau ynof fi, a minnau *ynoch chwithau*.*' Y rheswm paham y trefnwyd mai fel hyn yr oedd i ddigwydd yn hanes y disgyblion oedd er mwyn i'r sawl a dderbynai'r Ysbryd Glân wrth gredu o hynny allan ddeisyfu profi rhagor o'i bresenoldeb ac o'i ddylanwadau grasol – yn union fel a ddigwyddodd ym mhrofiad y disgyblion.

Dychwelwn at y ddameg. Y cwestiwn sy'n ein hwynebu yw hwn: Pam yr oedd Iesu Grist wedi dweud rhai pethau yn y fath fodd fel y buasai'n ei osod ei hun yn agored i'r cyhuddiad o fod yn gosod marc cwestiwn uwchben y disgyblion, prun a fyddent yn aros ynddo ef ai peidio? 'Os arhoswch ynof fi' Ai am ei fod yn credu y gallent beidio? Gallwn ateb y cwestiwn hwn yn syth ar ei ben. Nage, yn sicr. Nodwn dri rheswm dros ddweud hynny.

## Gwybod yn well

(A) Gwyddai Iesu Grist ormod o lawer am yr hyn a ddigwyddodd i'r disgyblion eisoes i beri iddo fod yn betrusgar yn eu cylch. Mae ei dystiolaeth i'w Dad nefol o'r hyn a ddigwyddodd iddynt wrth weddio ar eu rhan y noson honno yn dweud y cyfan:

'Mi a amlygais dy enw i'r dynion a roddaist i mi allan o'r byd. Eiddot ti oeddynt, a thi a'u rhoddaist hwynt i mi, a hwy a gadwasant dy air di. Yr awron y gwybuant mai oddi wrthyt ti y mae'r holl bethau a roddaist i mi. Canys y geiriau a roddaist i mi a roddais iddynt hwy; a hwy a'u derbyniasant, ac a wybuant yn wir mai oddi wrthyt ti y deuthum i allan, ac a gredasant mai tydi a'm hanfonodd i' (Ioan 17:6-8). 'A'r gogoniant a roddaist i mi a roddais iddynt hwy, fel y byddont un, megis yr ydym ni yn un: myfi ynddynt hwy, a thithau ynof fi' (Ioan 17:22-23a).

(B) Gwyddai beth fyddai'n digwydd iddynt ymhellach o ganlyniad i'r Tad wrando ar ei ddeisyfiadau ar eu rhan: 'Efe a rydd i chi Ddiddanydd arall . . . Y dydd hwnnw y gwybyddwch fy mod i yn fy Nhad, a chwithau ynof fi, a minnau ynoch chwithau.' Gwyddai hefyd o ganlyniad iddo weddio drostynt y noswaith honno y byddai ei Dad nefol yn eu 'cadw' rhag iddynt fynd i gollu neu gael eu hamddifadu o'r berthynas newydd a fyddai rhyngddynt a'r Tad ac a'r Mab o ganlyniad i dderbyn yr Ysbryd Glân. Yr oedd y Tad yn gwranddo arno ef bob amser (Ioan 11:42). Dyma'i weddi:

'Y Tad sancteiddiol, *cadw hwynt trwy dy enw, yr hwn a roddaist i mi, fel y byddont un megis minnau*. Tra fûm gyda hwynt yn y byd, mi a'u cedwais yn dy enw. Y rhai a roddaist i mi a gedwais, ac ni chollwyd ohonynt ond mab y golledigaeth, fel y cyflawnid yr Ysgrythur . . . Nid wyf yn gweddio ar i ti eu cymryd hwynt allan o'r byd, eithr ar i ti eu cadw hwynt rhag yr Un drwg . . . Ac nid wyf yn gweddio dros y rhai hyn yn unig, eithr dros y rhai hefyd a gredant ynof trwy eu hymadrodd hwynt; *fel y byddont oll yn un, megis yr wyt ti, y Tad, ynof fi, a minnau ynot ti; fel y byddont hwythau un*

*ynom ni.*'

'Y Tad, y rhai a roddaist i mi, yr wyf yn ewyllysio, lle yr wyf fi fod ohonynt hwythau hefyd gyda myfi, fel y gwelont fy ngogoniant a roddaist i mi; oblegid ti a'm ceraist cyn seiliad y byd . . . Ac mi a hysbysais iddynt dy enw, ac a'i hysbysaf; fel y byddo ynddynt hwy y cariad â'r hwn y ceraist fi, *a minnau ynddynt hwy*' (Ioan 17:11b-13, 15, 20-21, 24, 26).

Y geiriau i ddal gafael ynddynt yw: '*cadw hwynt . . . fel y byddont hwythau un ynom ni . . . a minnau ynddynt hwy*'. Yr hyn y gweddi'iai Iesu Grist amdano oedd y byddai'r Tad nefol yn cadw pawb a ddeuai i gredu ynddo yn y berthynas newydd a ddeuai i'w rhan wrth wneud hynny. Dyna paham y dywedodd wrth y disgyblion mai ymateb y Tad i'w weddi dros ei ddisgyblion fyddai rhoi'r Ysbryd Glân iddynt. Perthynas oedd hi o fewnbreswyllo'n arhosol yn ei gilydd. 'Y dydd hwnnw y gwybyddwch fy mod i yn fy Nhad, a chwithau ynof fi, a minnau ynoch chwithau.'

Hwn yw'r undeb ysbrydol neu, fel y byddai ein tadau'n cyfeirio ato, yr 'undeb cyfriniol' sy'n bodoli rhwng Iesu Grist a'i bobl: hwy 'ynddo ef' ac yntau 'ynddynt hwy'. Mae'n anodd i ni ei amgyffred oherwydd ei fod yn berthynas gwbl unigryw. Does dim perthynas hafal iddi'n bod fel y gallem ei chymharu â hi. Y berthynas agosaf y gallai'r apostol feddwl amdani yw'r hyn a ddigwydd i wryw a benyw pan ddaw'r ddau ynghyd mewn cyfathrach rywiol, naill ai i gyflawni eu priodas o fewn y cwllwm priodas, neu mewn perthynas odinebus y tu allan i'r cwllwm hwnnw, sef dod yn un cnawd: 'Oni wyddoch chwi fod yr hwn sydd yn cydio â phutain, yn un corff? "Canys y ddau" (medd efe) "fyddant un cnawd." Ond yr hwn a gysylltir â'r Arglwydd, un ysbryd yw' (1 Corinthiaid 6:16-17).

Wrth geisio dirnad natur y berthynas hon, y darlun a rydd fwyaf o gysur i'r sawl sy'n ysgrifennu'r geiriau hyn yw edrych ar ei ddwylo pan fyddant yn gorwedd o'i flaen ymhleth yn ei gilydd. Mae bysedd y naill law i'w gweld yn ymdreiddio i mewn i'r llaw arall. Ond y mae bysedd y llaw honno hefyd yn ymdreiddio i mewn i'r llall. A chanlyniad y cyfan yw undod ac undeb a chadernid. Perthynas felly oedd rhwng Iesu Grist a'i Dad. 'Onid wyt ti yn credu fy mod i yn y Tad, a'r Tad ynof finnau?' (Ioan 14:10). Perthynas felly hefyd sydd rhwng Iesu Grist a phob un sy'n credu ynddo.

Am i'r Tad ddiogelu'r berthynas hon y gweddi'iai Iesu Grist y noson honno yng

ngwydd ei ddisgyblion: *'cadw hwynt . . . fel y byddont un ynom ni . . . a minnau ynddynt hwy.'* (Byddwn yn edrych yn fanylach ar yr adnodau hyn pan ddeuwn at y weddi ei hun a'i hystyried yn ei chyflawnder; gweler Pennod 11: 'Un ynom ni', a phennod 12: 'Uchafbwynt y weddi'.) Mae'n amlwg, felly, i ba gyfeiriad yr edrychai Iesu Grist am sicrwydd parhad y berthynas a fyddai rhyngddo a'i ddisgyblion. Nid ofni na fyddent hwy yn parhau i 'aros' ynddo a barodd i Iesu Grist lefaru fel ei fod yn rhoi'r argraff ei fod yn gosod marc cwestiwn uwchben y disgyblion a fyddai iddynt barhau ynddo ef ai peidio. Yn ei feddwl ef, nid arnynt hwy y byddai'r cyfrifoldeb hwnnw'n gorwedd yn y pen draw.

(C) Oni ddywedodd am ei ddefaid ei hun yn gynharach yn ei weinidogaeth: 'Y mae fy nefaid i yn gwranddo fy llais i, a mi a'u hadwaen hwynt, a hwy a'm canlynant i. A minnau ydyf yn rhoddi iddynt fywyd tragwyddol, *ac ni chyfrgollant byth, ac ni dddwg neb hwynt allan o'm llaw i.* Fy Nhad i, yr hwn a'u rhoddes i mi, sydd fwy na phawb; *ac ni all neb eu dwyn hwynt allan o law fy Nhad i.* Myfi a'r Tad un ydym' (Ioan 10:27-29). Yr Hwn a'u rhoes i'r Mab ar y cychwyn yw'r hwn a fydd, trwy'r Mab a thrwy'r Ysbryd Glân, yn eu 'cadw' ynddo hefyd.

Meddai yn gynharach yn ei weinidogaeth: 'A hyn yw ewyllys y Tad a'm hanfonodd i: o'r cwbl a roddes efe i mi, na cholwn ddim ohono, eithr bod i mi ei atgyfodi ef yn y dydd diwethaf. A hyn yw ewyllys yr hwn a'm hanfonodd i: cael o bob un sydd yn gweled y Mab, ac yn credu ynddo ef, fywyd tragwyddol; a myfi a'i hatgyfodaf ef y dydd diwethaf' (Ioan 6:39-40). Nid er dim y canodd Pedr Fardd:

Fy Nhad a'm harwain, er pob drwg,

I mewn i'w nefol dy;

O law fy Mhriod pwy a'm dwg?

Mae'r afael sicraf fry!

Fe fyddai clywed Iesu Grist yn gweddio ar ei Dad nefol ar iddo eu 'cadw' hwynt 'ynom ni' yn ddiweddarach y noswaith honno wedi tawelu unrhyw ofnau y gallai'r disgyblion eu coledd ynghylch eu hiachawdwriaeth dragwyddol. Eu braint fyddai mwynhau'r berthynas barhaol a fyddai rhyngddynt hwy a'r Arglwydd Iesu Grist a thrwyddo ef rhyngddynt hwy a'r Tad. Ymrwymodd y Tad, y Mab a'r Ysbryd Glân eu hunain i ddiogelu iachawdwriaeth dragwyddol y 'defaid'. Dyna paham y dywedwn y gwyddai Iesu Grist fod digon wedi digwydd eisoes (a bod rhagor i ddigwydd

eto) i'w ddisgyblion a fyddai'n sicrhau eu diogelwch tragwyddol.

Agwedd ar gymeriad y saint yw na allant dorri cysylltiad yn derfynol â'r Arglwydd Iesu Grist nac ychwaith dorri'n derfynol y gymdeithas sydd rhyngddynt a rhai o gyffelyb ffydd. Gallant ddigalonni ynghylch eu hystad. Gallant fod ar eu colled yn fawr o beidio â deall yn iawn yr hyn a ddigwyddodd iddynt yn eu tröedigaeth. Gallant lithro'n ôl oherwydd pechod. Gallant gyflawni pechod y bydd iddo y fath ganlyniadau pellgyrhaeddol fel mai'r unig ffordd y gallant fyw gyda'u cydwybod, yn eu siom yn eu cylch eu hunain, fydd trwy eu perswadio eu hunain nad oedd yn bosibl eu bod wedi eu haileni – er bod hynny'n wir amdanynt. Amhosibl, fodd bynnag, fydd iddynt droi eu cefnau'n derfynol ar yr Arglwydd Iesu Grist. Pe baent yn crwydro ymhell oddi wrtho, a hynny ambell waith dros gyfnod hir, yn waelodol, eneidiau annedwydd a fyddant. Yn namhegion y darn arian a'r ddafad golledig, fe roes Iesu Grist rybudd teg i bob un ohonynt mai ei fwriad fyddai chwilio am y darn arian nes ei gael a cheisio'r ddafad golledig a'i dwyn i'r gorlan yn ôl.

Wrth ddisgrifio'r hyn a ddigwyddodd i rai o'r proffeswyr gau a fu unwaith yn cymryd eu lle yn rhengoedd y credinwyr yn Effesus, gwnaeth loan un gosodiad dadlennol iawn yn eu cylch: 'Oddi wrthym ni yr aethant hwy allan, eithr nid oeddynt ohonom ni; *canys pe buasent ohonom ni, hwy a arosasent gyda ni*'. Dyma gyd-destun y gosodiad hwnnw:

*'O blant bychain, yr awr ddiwethaf ydyw; ac megis y clywsoch y daw anghrist, yr awron hefyd y mae anghristiau lawer, wrth yr hyn y gwyddom mai'r awr ddiwethaf ydyw. Oddi wrthym ni yr aethant hwy allan, eithr nid oeddynt ohonom ni; canys pe buasent ohonom ni, hwy a arosasent gyda ni. Eithr hyn a fu, fel yr amlygid nad oedd neb ohonynt ohonom ni' (1 loan 2:18-19).*

Canlyniad y gwaith rhyfeddol a gyflawna'r Tad ar galonnau ei blant wrth eu rhoi i'w Fab ac wrth roi'r Ysbryd Glân i breswyllo yn eu calonnau'n dragywydd, yw hyn. Hynny, ynghyd â'r ffaith fod y Tad, y Mab a'r Ysbryd Glân gyda'i gilydd yn ymgymryd â'r cyfrifoldeb o 'gadw'r' cyfryw lle y bu iddynt gael eu gosod ganddynt ar y dechrau – 'yn y Mab' a thrwy hynny 'yn y Tad' – gyda'r Mab a'r Tad yr un pryd yn aros 'ynddynt' yn dragywydd.

Fe'u rhoddir i'r Mab gan y Tad yn eneidiau ailanedig fydd yn ewyllysio gwneud ei

ewyllys. Bydd y Mab yn gyntaf yn estyn iddynt faddeuant am eu holl bechodau ac yna'n eu 'cymryd ato'i hun', os cawn fenthyca'r ymadrodd a ddefnyddiodd ef ei hun yn yr oruwchystafell i ddisgrifio'r hyn a ddigwydd (Ioan 14:3). Fe ddigwydd trwy i'r Ysbryd Glân ddod i'w calonnau i aros. Daw'r berthynas a ddisgrifiodd Iesu Grist fel bodolaeth dau berson 'yn' ei gilydd, fel eu bod yn mwynhau cymdeithas uniongyrchol â'i gilydd ym myd yr ysbryd – yr un berthynas â'r hon a'i nodweddiadau ef yn ei berthynas â'i Dad – yn ffaith yn eu bywydau. ('Cydymfodaeth' fyddai'r term diwinyddol i'w disgrifio.)

Y peth cyntaf a ddywed Iesu Grist wrth y cyfryw ym mhob oes yw'r un peth yn union ag a ddywed wrth ei ddisgyblion yn y fan hyn: Gwyddoch bellach eich bod ynof i, a'm bod innau ynoch chwi. Arhoswch ynof fi fel yr arhosaf innau ynoch chwi. (Hebof fi ni ellwch chwi wneuthur dim.) Ni allwn fod yn nes atoch nag yr ydwyf – Myfi yn y Tad a chwithau ynof i a minnau ynoch chwithau. Dyna'r drefn. Ac nid trefniant dros dro mohono.

### **Yr efelychwyr**

Pam, felly, fod Iesu Grist wedi gosod pethau fel y gallai'n hawdd roi'r argraff i rai ei fod yn amau a fyddai i'w ddisgyblion 'aros ynddo' ef ai peidio? Mae dau reswm pwysig yn cyfrif am hyn.

(a) Byddai rhai yn honni eu bod yn ddisgyblion iddo heb i'r berthynas ddeublyg rhyngddynt hwy ac ef fodoli o gwbl. Cyferbynnu'r hyn a ddigwyddai i'r canghennau oedd mewn gwirionedd yn y winwydden â'r hyn a ddigwyddai i'r canghennau diffwrth nad oeddent mewn gwirionedd yn y pren oedd bwriad Iesu Grist yn y ddameg.

Mae'n arwyddocaol dros ben yn y ddau gyfeiriad a wnaeth at y canghennau diffwrth na roddodd unrhyw le i'r disgyblion gredu ei fod yn dysgu y byddai ef yn trigo yng nghalonau y cyfryw. Cyfeiriodd atynt fel rhai a oedd 'ynddo ef' ond ni ddywedodd unwaith: 'a minnau ynddynt hwy'. Yn adnod 2, meddai: 'Pob cangen ynof fi heb ddwyn ffrwyth'. Dim sôn amdano ef 'ynddynt hwy'. Wrth gyfeirio atynt am yr ail dro yn adnod 6, yr unig beth a ddywedodd amdanynt oedd: 'Onid erys un ynof fi'. Dim sôn, unwaith eto, am ail ran y berthynas: 'a minnau ynddynt hwy'.

Mae hyn yn hollol wahanol i'r ffordd y cyfarchodd ei ddisgyblion deirgwaith. Yn adnod 4, meddai: 'Arhoswch ynof fi a *mi ynoch chwi*'. Yn adnod 5: 'Yr hwn sydd yn aros ynof fi a *minnau ynddo yntau*'. Yn adnod 7: 'Os arhoswch ynof fi ac aros o'm

*geiriau ynoch*. ( Cawn weld yn y bennod nesaf fod Iesu Grist yn gosod y ffaith fod y disgyblion yn 'cadw' ei air a'i orchmynion ar yr un gwastad â'r ffaith ei fod ef yn trigo ynddynt.)

Ni allai hyn ond golygu bod Iesu Grist yn cyfeirio at ddisgyblion honedig iddo a fyddai'n dweud eu bod ynddo ef ond nad oedd ef erioed wedi dod i'w calonnau trwy ei Lân Ysbryd i aros. Y prawf nad oedd y fath gysylltiad yn bod rhyngddynt a'r pren oedd nad oedd dim ffrwyth ar y canghennau hyn – *hynny yw, gweithredoedd y byddai'n rhaid eu priodoli i Iesu Grist*. Fe fyddai pob un a fyddai'n aros ynddo ef ac yntau ynddynt hwythau, yn dwyn ffrwyth: *'Yr hwn sydd yn aros ynof fi, a minnau ynddo yntau, hwnnw sydd yn dwyn ffrwyth lawer.'*

Beth bynnag fu'r cymhelliad a barodd i'r bobl hyn honni eu bod yn perthyn iddo, ni fu iddynt erioed eu darostwng eu hunain iddo, dod i'w adnabod ac yna ei chyfrif hi'n fraint i ddwyn ei ffrwyth. Gan na fyddai rhyngddynt a'r pren gysylltiad byw, fel bod bywyd y pren yn llifo i'r canghennau a'u galluogi i ddwyn ffrwyth, yr hyn a wnâi'r Tad fyddai eu tynnu ymaith o'r pren.

Canlyniad y 'tynnu ymaith' fyddai: 'Efe a wywodd'. Pa arwydd bynnag o fywyd a allai fod yn y gangen cyn hynny, diflannai'n fuan. Ac meddai Iesu Grist ymhellach, ' y maent yn eu casglu hwynt ac yn eu bwrw yn tân, a hwy a losgir.' Does dim pren yn bod sydd yn fwy di-fudd i unrhyw bwrpas arall ar wahân i ddwyn ffrwyth na'r winwydden. Unig ddiddordeb y Gwinllannydd yn ei changhennau yw eu bod yn dwyn ffrwyth. Does ganddo'r un gwaith arall ar eu cyfer.

I rai a fydd yn gwyllo hyn yn digwydd, ymddengys y gwahanu fel pe byddai'r personau hynny wedi dewis 'peidio ag aros' yn Iesu Grist. Y gwir yw na fuont erioed 'yn Iesu Grist' yng ngwir ystyr yr ymadrodd. Nid nhw a'i gadawodd ef: y Tad a'u tynnodd ymaith fel canlyniad i'r dystiolaeth amlwg (iddo ef) nad oeddent yn y pren mewn gwirionedd.

### **Prif achos pryder**

Yn y cyswllt hwn mae'n bwysig ein bod yn rhoi peth ystyriaeth i'r cwestiwn: Sut mae cyfieithu'r adnod sy'n achosi cymaint o bryder i Gristnogion didwyll? Cyfeiriwn at Ioan 15:6 – *'Onid erys un ynof fi, efe a deflir allan megis cangen ac a wywa; ac y maent*

*yn eu casglu hwynt ac yn eu bwrw yn tân, a hwy a losgir.*' Caiff yr adnod hon ei chyfieithu mewn dwy ffordd. Fe'i cyfieithir mewn llawer o gyfieithiadau diweddar (gan gynnwys y cyfieithiad a gyhoeddwyd gan Fudiad Efengylaidd Cymru, sef yr un a gymerwyd fel sail i'n sylwadau yn y gyfrol hon) i ddarllen fel hyn: 'Onid erys un ynof fi, efe a deflir allan megis cangen ac a wywa; ac y maent yn eu casglu hwynt ac yn eu bwrw yn tân, a hwy a losgir.' Y cyfieithiad a geir yn yr Hen Feibl Cymraeg yw: 'Onid erys un ynof fi, *efe a daflwyd allan megis cangen, ac a wywodd*; ac y maent yn eu casglu hwynt, ac yn eu bwrw yn tân, a hwy a losgir.'

Cyfeirio at weithred y Tad yn tynnu ymaith y prennau diffwrth a geir yn y naill gyfieithiad fel y llall. Y gwahaniaeth rhyngddynt yw hyn. Yn ôl yr hen gyfieithiad, egluro yr oedd Iesu Grist mai'r rheswm paham nad oedd pob cangen yn 'aros' yn y pren oedd oherwydd eu bod wedi eu tynnu ymaith gan y Tad. Gwaith y Tad yn sylwi eu bod yn ddiffrwyth oedd yn gyfrifol am y tynnu ymaith: 'Pob cangen ynof fi heb ddwyn ffrwyth y mae efe yn ei thynnu ymaith.' Y Tad a gymerodd y blaen gan ddiolli'r proffeswyr gau oddi wrth y winwydden. Canlyniad hynny yw eu bod yn peidio 'aros' neu'n hytrach yn peidio honni eu bod yn 'aros' yn y pren. 'Onid erys un ynof fi, *efe a daflwyd allan megis cangen, ac a wywodd.*'

Yn ôl y cyfieithiad arall, canlyniad gwaith y Tad yn sylwi fod yr *efelychu* wedi dod i ben yw'r tynnu ymaith. 'Onid erys un ynof fi, *efe a deflir allan megis cangen ac a wywa.*' Yr adeg honno, wedi i'r rhai hynny roi heibio'r broffes eu bod 'yng Nghrist', y mae'r Tad yn gweithredu.

Ni all neb wadu nad yw'r ddwy ferf, 'efe a daflwyd allan' ac 'a wywodd', yn y Groeg yn yr amser gorffennol – yn union fel y cyfieithwyd hwy yn ffyddlon yn yr Hen Feibl Cymraeg. (Gall fod, yn achos rhai o leiaf, mai ystyriaethau *diwinyddol* a barodd iddynt eu cyfieithu trwy eu gosod yn y dyfodol – 'a deflir allan' ac 'a wywa'. Nid yw athrawiaeth sicrwydd cadwedigaeth a dyfalbarhad y saint mor gysegredig a gwerthfawr i bob cyfieithydd, gwaetha'r modd.) Y rheswm paham y rhown sylw arbennig i'r adnod yw fod cynifer o Gristnogion o argyhoeddiad wedi cael eu hanesmwytho ynghylch yr union bynciau hyn ganddi hi, yn fwy, ond odid, na chan unrhyw ran arall o'r Ysgrythur. Gan eu bod yn ei chael hi'n anodd dros ben i 'aros' yn Iesu Grist, yn ôl fel y deallant hwy y term hwnnw, fe fydd eu rhagolygon ysbrydol yn edrych yn dywyll iawn.

Dylai fod yn ollyngdod mawr iddynt ddeall nad at hynny y cyfeiriai Iesu Grist yn y fan hyn. Esbonio yr oedd pam fod rhai yn gwadu eu proffes eu bod 'yng Nghrist'. Tra ymddangosai iddynt hwy ac i eraill ar y pryd mai hwy eu hunain a benderfynodd droi eu cefn ar y broffes eu bod 'yng Nghrist', yn gwbl groes i hynny y bu, medd Iesu Grist. Y Gwinllannydd a sylwodd nad oedd unrhyw arwydd ym mywydau'r cyfryw fod bywyd y pren yn llifo trwyddynt i ddwyn ei ffrwyth ei hun. Defnyddiodd yntau ei foddion ei hun i'w gwahanu oddi wrth y winwydden.

Cydnabyddwn fod y Groeg yn 'caniatáu', os nad yw'n ein 'gorfodi mewn rhai mannau' i drosi'r ferf sydd yn y gorffennol i'r presennol. Ni allai neb ei roi yn well na H.P.V. Nunn (sydd piau'r geiriau canlynol). Yn ei *A Short Syntax of New Testament Greek*, dywed, 'The use of the Aorist Indicative denotes that the action is regarded simply as an event without any account being taken of its progress or of the existence of its result. Even its time is not always distinctly contemplated but, generally speaking, it is regarded as taking place in past time. *In certain cases we are compelled to translate the Aorist by an English present*'. Dyfynna Mathew 3:17 a Luc 15:32 ynghyd â'r adnod hon (Ioan 15:6) fel enghreifftiau.

Byddai'n gywir dweud, fodd bynnag, yn yr achos hwn fod nifer o ystyriaethau sylweddol yn ffafrio cadw at y cyfieithiad llythrennol o'r Groeg yn y fan hyn. Nodwn rai o'r ystyriaethau hynny:

(i) Onid yw'n rhesymol disgwyl y byddai'r unig gyfeiriad a wnaeth Iesu Grist at y canghennau hyn yn y *ddameg ei hun* yn taflu goleuni ar yr unig gyfeiriad arall a wnaeth atynt, sef y geiriau hyn yn y cymhwysiad? Yr hyn a ddywedodd Iesu Grist amdanynt yn y *ddameg oedd y byddai'r Tad yn eu tynnu ymaith o'r pren, nid am nad oeddynt yn aros ynddo ef – er bod hynny'n wir – ond am nad oeddent yn dwyn ffrwyth (2a)*. Yn wir, mae'r gosodiad yn mynd ymhellach na hynny. Yr *unig* rai y byddai'r Tad yn eu tynnu o'r pren fyddai rhai cwbl ddi-ffrwyth: 'Pob cangen ynof fi heb ddwyn ffrwyth, y mae efe yn ei thynnu ymaith.'

(ii) Fel y gwyr unrhyw un sy'n gyfarwydd â dysgeidiaeth Iesu Grist ynghylch ei Deyrnas ar y ddaear, nid hwn oedd yr unig dro iddo gyfeirio at broffeswyr gau a'r hyn a ddigwyddai iddynt. Yr hyn a ddysgodd yn nameg yr efrau oedd ar i'w ddisgyblion beidio â chymryd arnynt eu hunain i ysgymuno'r efrau o'u plith (wedi cael lle i amau mai efrau

ac nid gwenith oeddent) rhag i hynny wneud niwed i ganran o'r gwenith. Fe gaent eu gwahanu yn Nydd y Farn. Yn nameg y rhwyd dysgodd wirionedd tebyg. Er i'r 'rhai drwg' aros yn rhengoedd y 'rhai da' hyd ddydd y farn, yn y dydd hwnnw didolir 'y rhai drwg o blith y cyfiawn'. Dysgir yr un gwirionedd yn nameg y deg morwyn, dameg y talentau ac yn nameg y Farn fawr.

Yn nameg y wir winwydden ac yn nameg yr heuwr, fodd bynnag, dysgodd Iesu Grist y gallwn hefyd ddisgwyl gweld y gwahanu (dameg yr heuwr) a hyd yn oed y nithio a'r didoli (dameg y wir winwydden) yn digwydd yn y bywyd hwn. Ai un rheswm pam y mae Duw yn gweld yn dda weithredu fel hyn yn achos rhai yw fel y byddai cyfle iddynt, *cyn iddi fynd yn rhy ddiweddar*, i edifarhau am eu pechod a chredu yn ei Fab mewn gwirionedd? Yn sicr, fe fydd yn rhy ddiweddar i wneud hynny yn Nydd y Farn.

Profiad a all beri cryn siom a mesur helaeth o anesmwythyd i Gristion didwyll yw clywed am rywun a wnaeth broffes ei fod yn credu yn Iesu Grist ac yn ddiweddarach a wadodd fod unrhyw beth o sylwedd wedi digwydd iddo. Pan ddigwydd hynny, medd Iesu Grist, ni ddylid digalonni. Enghraifft fydd o'r hyn a ddysgodd yn y ddameg: 'Pob cangen ynof fi heb ddwyn ffrwyth, y mae efe yn ei thynnu ymaith.' Nid nhw fydd wedi gadael y pren, fel bod hynny'n adlewyrchu ar y pren. Y Gwinllannydd a sylwodd nad oedd dim ffrwyth ar y gangen honno. Fe'i 'tynnodd ymaith' o'r herwydd.

Ni fyddai'r un gangen yn ddiffwrth pe byddai'r berthynas ddeublyg rhyngddi hi a'r pren yn bod. Yr Arglydd Iesu Grist ei hun sy'n dweud hynny: 'Yr hwn sydd yn aros ynof fi, a minnau ynddo yntau, hwnnw sydd yn dwyn ffrwyth lawer.' Canlyniad y 'tynnu ymaith' oedd nad oeddent bellach yn cymryd arnynt eu bod 'yn y winwydden'.

### **Pam y gorchymyn?**

Er mor bwysig i'r Cristion yw sylweddoli bod Iesu Grist wedi rhoi gofal ei ddisgyblion ar ei Dad nefol fel y byddent yn sicr o gael eu cadw 'ynddo ef' (ac yntau'n aros ynddynt hwythau), yr oedd yn bwysig dros ben eu bod yn atgoffa'u hunain yn feunyddiol mai hynny oedd eu baint a'u bod i fyw yng ngoleuni'r gwirionedd hwnnw. 'Arhoswch ynof fi,' meddai, gan olygu agwedd meddwl fwriadol gyson, 'a mi ynoch chwi' (Ioan 15:4).

Tuedd credinwyr yn aml yw 'dilyn eu teimladau'. Pan fydd eu teimladau'n tueddu i fod 'ar i lawr' – beth bynnag fo'r rheswm am hynny, boed foesol, ysbrydol,

gnawdol, neu hyd yn oed ddielflig – deuant i'r casgliad eu bod wedi peidio ag aros yn Iesu Grist. Yna cânt hi'n anodd iawn codi o'r cyflwr hwnnw.

Dyna paham y llefarodd Iesu Grist y geiriau hyn. Gorchymyn ydyw. Gorchymyn a haedda lawn cymaint o'n sylw ag unrhyw orchymyn arall o'i eiddo. 'Arhoswch ynof fi a mi ynoch chwi.' Dylai'r Cristion ei atgoffa ei hun bob dydd beth yw ei berthynas â'i Waredwr a beth yw perthynas ei Waredwr ag yntau. Dylai hefyd chwilio'i galon i ddod o hyd i beth bynnag a barodd iddo golli ei orfoledd, a gwneud wedyn yr hyn y mae'r Ysgrythur yn dweud sy'n ddyletswydd arno. Y man cychwyn yw adfer ei hyder fod y berthynas sylfaenol rhyngddo a'i Arglwydd yn dal i fod yn sicr.

Pe bai rhywun yn gofyn iddo ble roedd o'n byw o safbwynt ysbrydol, gall y Cristion ateb yn ddibetrus, 'yng Nghrist Iesu'. A phe bai'r holwr yn gofyn lle mae Iesu Grist yn byw, gall ateb gyda myrddynau o gredinwyr eraill, 'daeth Iesu i'm calon i fyw'. Nid yw'n rhyfedd o gwbl fod yr apostolion yn manteisio ar bob cyfle a gaent i gyfarch y saint fel rhai a oedd 'yng Nghrist'. Gweler Colosiaid 1:2, 'At y saint a'r ffyddlon frodyr yng Nghrist y rhai sydd yng Ngholosa' ac Effesiaid 1:1, 'At y saint sydd yn Effesus a'r ffyddloniaid yng Nghrist Iesu', fel enghreifftiau. Felly hefyd y dylai pob Cristion feddwl amdano'i hun.

Un o'r anogaethau mwyaf gwerthfawr a roes yr apostol i gredinwyr yn Rhufain oedd peri iddynt *gyfrif eu hunain* 'yn farw i bechod, eithr yn fyw i Dduw yng Nghrist Iesu ein Harglwydd' (Rhufeiniaid 6:11). Yr oedd hynny'n digwydd bod yn wir amdanynt, fel y mae'n wir am bob un a gaiff ei aileni. Os felly, meddai'r apostol, yr oeddent i gredu hynny.

Felly'n union gyda'r ymadrodd 'Arhoswch ynof fi, a minnau ynoch chwi.' Peidiwn â drwgamau nac anghredu'r hyn sy'n wir amdanom. Boed inni ddilyn yn hytrach y cyfarwyddiadau a roes Iesu Grist i'w ddisgyblion yn yr oruwchystafell: 'Arhoswch ynof fi a mi ynoch chwi.' Beth feddyllem ni o rywun sydd wedi dod i aros ar ein haelwyd ac yn dod atom byth a hefyd yn gofidio na allai aros yn ein cartref a mor falch fuasai pe gallai. Yn lle mwynhau'r ffaith ei fod yno eisoes a bod trefniadau wedi eu gwneud fel ei fod i aros yno'n barhaol!

Roedd gan Iesu Grist *addewid* werthfawr iawn i'w rhoi i'w ddisgyblion – addewid a oedd yn codi'n uniongyrchol o'r ddameg. Addewid hefyd a fyddai'n dangos y

fath agendor sydd rhwng yr efelychwyr a'r disgyblion gwir. Cawn ei hystyried yn y bennod nesaf.

C:/Canllawiau Cred/Canllawiau Cred, Pennod 7